REBEL

Fe'm ganed i mewn storom
Fu'n chwythu mas o'r de
I deulu mawr o weithwyr
Yn siarad iaith y Ne'
Fu ysgol a fu canu
A gweddu ar y Sul
A bois y stryd i'm denu
Oddi a'r y llwybr cul

Llais fy Nhad a llais fy Mam
Rhybyddio fi rhag cam
A minnau'n mynnu crwydro
A hawlio gofyn pam
Fod cymaint heb eu hateb
Gan y rhai sydd wrth y lliw
Sy'n credu fod 'na ddim gwerth
Yn y bywyd dan ni'n byw

O nhw'n drychid arna' i fel tase ni'n rebel
O nhw'n drychid arna' i fel tase ni'n rebel
Falle fod hi'n hen bryd ymddwyn fel rebel
Falle dyle ni 'gyd ymddwyn fel rebel

Ma' 'na bobol yn y caeau
Ac mae 'na bobol yn y stryd
Ma' nhw'n disgwyl cyfnewidfa
Ma' nhw'n ofnus yr un pryd
"O's 'na rhywbeth ar y gorwel?"
Fe ofynnodd rh'w un i mi
" Na, diwrnod arall gweli,
Ma'r gweddill lan i ti!"

© Geraint Griffiths